



9 Mehefin 2021

**YMATEB COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU I ADRODDIAD  
AROLYGIAETH CWNSTABLIAETH A GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB EI  
MAWRHYDI: 'CUSTODY SERVICES IN A COVID-19 ENVIRONMENT'**

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r ffordd y cafodd gwasanaethau dalfeydd yr heddlu eu darparu yn ystod pandemig COVID-19 y llynedd. Braff yw gweld bod y mwyafrif o'r canfyddiadau yn yr adroddiad yn gadarnhaol ac yn cydnabod yr anawsterau a wynebir ar hyn o bryd yn y ddalfa a'r system cyfiawnder troseddol ehangach y mae staff dalfeydd yn gweithio ynddi.

Mae'r heddlu wedi wynebu tasg anodd iawn dros y flwyddyn ddiwethaf, sef sicrhau y caiff gwasanaethau eu darparu i'r cyhoedd yn unol â 'busnes fel arfer', gan sicrhau ar yr un pryd y caiff y cyhoedd, yn ogystal â swyddogion a staff, eu diogelu rhag bygythiad y feirws. Mae amgylchedd y ddalfa'n un lle y gall aelodau o'r cyhoedd gael eu cadw am sawl awr ar y tro ac, yn naturiol ddigon, bydd adegau pan na ellir osgoi dod i gysylltiad agos â nhw, sydd wedi bod yn her i swyddogion yn ystod y cyfnod. Yn Ne Cymru, credaf fod yr heddlu wedi gweithredu'n gynnar er mwyn sicrhau bod mesurau ar waith i ddelio â'r bygythiadau.

Roedd Heddlu De Cymru yn un o'r heddluoedd yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolygiad hwn. Roeddwn yn falch bod rheolwr fy Nghynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd wedi cael ei holi fel rhan o'r broses hon ac y bu modd i ni gyfrannu ein sylwadau ar y ffordd gadarnhaol y gwnaeth gwasanaethau dalfeydd ymateb i'r heriau.

Canfu'r adroddiad fod pob dalfa a arolygwyd wedi parhau i weithredu yn ôl yr arfer i raddau helaeth yn ystod y pandemig a bod heddluoedd wedi cynllunio a pharatoi'n dda i weithredu ar yr amryw ofynion iechyd a diogelwch dan sylw. Yn ystod 2020, bu aelodau o'm tîm fy hun yn gweithio gyda'n Hymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd i sefydlu cynllun wrth gefn ar gyfer parhau i gynnal arolygiadau dirybudd â dalfeydd. Fel rhan o'r cynllun hwn, bu ein Hymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd a staff o'm tîm yn ffonio dalfeydd yn ddirybudd lle nad oedd ymweliadau corfforol yn bosibl mwyach. Hefyd, bu aelodau o'm tîm yn archwilio cofnodion dalfeydd yn rheolaidd. Yn ystod

## Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru  
Police and Crime Commissioner for South Wales



eu hymholiadau, gwnaethant sicrhau bod cwestiynau am fesurau COVID-19 yn cael eu gofyn.

Roedd fy nhîm yn sicr bod y cyhoedd a'n swyddogion yn cael eu diogelu cymaint â phosibl rhag COVID-19 yng ngwasanaethau dalfeydd Heddlu De Cymru yn ystod y cyfnod hwn. Rwy'n falch o weld bod yr adroddiad hwn yn ategu'r canfyddiadau hyn.

Fodd bynnag, rwy'n cefnogi argymhellion yr adroddiad mewn perthynas â chofnodi, ac rwyf eisoes yn gweithio gyda'r heddlu i fynd i'r afael â rhai o'r pwyntiau hyn.

Mae'r Prif Gwnstabl yn ymateb i gynnwys yr adroddiad fel a ganlyn:

*'Mae Heddlu De Cymru yn cydnabod ac yn cefnogi canfyddiadau'r adroddiad hwn ac yn parhau i weithio gyda'i bartneriaid i sicrhau bod unigolion a gedwir yn y ddalfa a staff yn ddiogel bob amser yn amgylchedd y ddalfa. Yn ystod y pandemig, mae'r staff yn y pedair dalfa wedi cynnal amgylchedd diogel i bawb sy'n gweithio yn y dalfeydd yn ogystal â'r unigolion a gedwir ynddynt a'u cynrychiolwyr cyfreithiol. Mae staff y dalfeydd yn parhau i fonitro diogelwch pawb a ddaw i mewn i'r ddalfa, ac mae protocolau ar waith ar gyfer y rhai sydd â COVID-19, neu'r rhai yr amheuir ei fod ganddynt.*

*Drwy gydol y pandemig, mae'r heddlu wedi gweithio gyda Byrddau Iechyd Lleol, asiantaethau atgyfeirio i'r ddalfa a Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi i sicrhau bod swyddogion ac unigolion a gedwir yn y ddalfa yn cael y cymorth angenrheidiol, a bod gwrandawiadau llys yn parhau i gael eu cynnal yn effeithlon ac yn effeithiol, yn ystod y cyfnod anodd hwn.*

*Mae'r heddlu'n parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth a gofal o safon uchel i bawb sy'n gweithio yn amgylchedd y ddalfa ac sy'n ymweld ag ef, ac mae wedi ystyried holl ganfyddiadau adroddiad Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi fel rhan o'i ymrwymiad i wella'r gwasanaeth a ddarperir i'n cymunedau'.*

Byddaf yn parhau i wneud hyn a hefyd yn ystyried sut i roi argymhellion yr adroddiad ar waith.

## Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru  
Police and Crime Commissioner for South Wales



**Y Gwir Anrh Alun Michael**  
**Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru**

---

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu  
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU  
ff: 01656 869366  
e: [commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk](mailto:commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk)  
g: [southwalescommissioner.org.uk](http://southwalescommissioner.org.uk)

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,  
Bridgend, CF31 3SU  
t: 01656 869366  
e: [commissioner@south-wales.pnn.police.uk](mailto:commissioner@south-wales.pnn.police.uk)  
w: [southwalescommissioner.org.uk](http://southwalescommissioner.org.uk)

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg  
The Commissioner and his team welcomes correspondence in Welsh or English